Adroddiad Cyfarfod 15:06:19
Ela Jones – Meistres y Gwisgoedd

Daeth tymor cangen Bethel i ben ddydd Sadwrn Mehefin 15fed gyda'n gwibdaith arferol, y tro yma i ddyffryn Conwy. Cafwyd orig dros ginio ym Metws y Coed cyn teithio wedyn i fyny'r dyffryn i bentref hanesyddol Ysbyty Ifan.

Yng nghwmni Mrs. Ela Jones, Meistres y Gwisgoedd, cawsom weld sampl o holl ddillad yr Orsedd, o ffrogiau merched y ddawns flodau, gwisgoedd gwyn, gwyrdd a glas hyd at glogau'r prif swyddogion. (Bu Dilys ac Anne yn fodelau perffaith i arddangos ambell wisg !)

Yn dawel a naturiol, rhoddodd Ela sylwadau ar yr holl waith sy'n angenrheidiol bob blwyddyn i'w golchi a'u smwddio a'r gwaith sydd fel eleni - gyda newid archdderwydd - i addasu dilledyn i ffitio person sy'n newydd i swydd. Wrth fodio a theimlo'r gwisgoedd roeddem yn rhyfeddu at y gwaith llaw cywrain anhygoel sydd i'r holl ddilladau seremoniol, fel yr holl frodwaith addurniadol sydd ar glogyn yr Arch-dderwydd

I orffen y noson cafwyd bwffe yng ngwesty Pont Waterloo ym Metws y Coed.

Bydd pawb nŵan yn edrych ymlaen at ail ddechrau tymor newydd nos Fercher Medi 11eg am 7.30 yn festri Cysegr a bydd croeso cynnes iawn i aelodau newydd wrth gwrs.